# PECYN RECRIWTIO
# CYFARWYDDWR CYNNWYS

Gorffennaf 2025

CWMNI

# Ein Cwmni

Mae Cwmni Da yn gwmni sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned mae'n ei wasanaethu ac sy'n eiddo i'r bobl sy'n rhan o'i lwyddiant bob dydd.

Rydym yn gwmni cynhyrchu teledu annibynnol, wedi ei leoli yng Ngogledd Cymru ond gyda chyrhaeddiad a meddylfryd creadigol sy'n ymestyn yn bellach. Rydym yn cynhyrchu cynnwys sy'n ysbrydoli, yn ysgogi ac yn adlewyrchu profiadau pobl go iawn.

Yn 2018 daeth Cwmni Da yn Ymddiriedolaeth yn Mherchnogaeth y Gweithlu (EOT) gan sicrhau bod y cwmni'n aros yn nwylo'r bobl sy'n gweithio yno, gyda ffocws ar werthoedd lleol, datblygiad parhaol a chreadigrwydd uchelgeisiol.

Rydym yn cynhyrchu cynnwys sy'n sbarduno sgyrsiau a rydym am wneud hynny trwy fod yn gwmni lle mae lleisiau'n cael eu clywed, pobl yn cael eu herio, a'u cefnogi.

Rydym yn chwilio am Gyfarwyddwr Cynnwys llawn gweledigaeth ac egni creadigol. Mae hon yn swydd allweddol yn nhîm arwain Cwmni Da, yn cynnig cyfle i lywio cyfeiriad golygyddol y cwmni a chreu cysylltiadau newydd ar draws y diwydiant. Bydd y person yn arwain ar ddatblygu cynnwys arloesol sy'n taro'r nod gyda chynulleidfaoedd amrywiol. Mae hwn yn gyfle i ymuno â thîm agored, uchelgeisiol ac arloesol.

# Amdanom Ni

Rydym yn gweithio ar draws amrywiaeth o *genres*, o ddogfennau a drama i adloniant teuluol, cynnwys ieuenctid a fformatau digidol. Rydym yn:

- Cynhyrchu cynnwys Cymraeg o safon uchel.
- Gweithio'n greadigol ar draws sawl llwyfan a sianel.
- Cynnig amgylchedd gwaith cydweithredol, agored ac uchelgeisiol.
- Parhau i dyfu a meithrin perthnasau newydd gyda darlledwyr a phartneriaid rhyngwladol.

Rydym wedi penodi Prif Weithredwr ac ar hyn o bryd yn recriwtio Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â'r cwmni wrth i ni gryfhau'r tîm arweiniol a datblygu cysylltiadau newydd ledled Cymru, y DU a thu hwnt.



# Manylion y Swydd

| | |
|---|---|
| TEITL | Cyfarwyddwr Cynnwys |
| MATH O SWYDD | Llawn amser (gyda rhywfaint o hyblygrwydd) |
| ADRODD I | Prif Weithredwr |
| CYFLOG | I'w drafod, yn unol â phrofiad ac arbenigedd. |

Bydd y Cyfarwyddwr Cynnwys yn chwarae rhan allweddol wrth lunio a chyflwyno gweledigaeth greadigol y cwmni, gan:

- Arwain y strategaeth golygyddol a'r gwaith datblygu cynnwys.
- Cynnal a chryfhau cysylltiadau gyda darlledwyr presennol ac adeiladu partneriaethau newydd.
- Hyrwyddo tîm cynhyrchu uchelgeisiol, creadigol a chydweithredol.
- Bod yn llais ac yn bresenoldeb allanol i'r cwmni mewn digwyddiadau, comisiynau ac wrth 'pitchio' cynnwys.

# Swydd-ddisgrifiad: Cyfarwyddwr Cynnwys

## TROSOLWG O'R SWYDD

Mae hwn yn gyfle cyffrous i unigolyn uchelgeisiol, profiadol ac ysbrydoledig i chwarae rhan allweddol wrth lunio cyfeiriad golygyddol ac arloesol Cwmni Da ar gyfer y dyfodol.

Prif nod y swydd hon yw cynnal ac adeiladu cysylltiadau presennol a newydd gyda llu o ddarlledwyr, sianelau digidol a llwyfannau amlgyfrwng, yng Nghymru, y DU a thu hwnt. Mae'n gyfle i arwain ar ddatblygu cynnwys creadigol sy'n torri tir newydd ac yn adlewyrchu dyheadau masnachol a chreadigol y cwmni.

## PRIF GYFRIFOLDEBAU:

### Arweinyddiaeth Golygyddol a Strategol

- Gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer holl gynyrchiadau'r cwmni, gyda phwyslais arbennig ar gyd-gynhyrchu, partneru, ffynonellau ariannu amgen a chynyrchiadau rhyngwladol.
- Hyrwyddo amgylchedd gwaith creadigol, cynhwysol ac ysbrydoledig sy'n meithrin hyder a photensial staff.
- Cynnig gorolwg ac adborth golygyddol gan arwain ar wella safonau yn barhaus.

### Datblygu Cynnwys ac Arloesi

- Datblygu a meithrin syniadau newydd, gan roi pwyslais ar reddf fasnachol a chreadigrwydd.
- Bod yn hyderus ac ymarferol wrth 'pitchio' cynnwys i ddarlledwyr, platfformau newydd a phartneriaid allweddol.
- Bod ar flaen y gad gyda thueddiadau digidol a datblygiadau'r farchnad.
- Blaenoriaethu cynnwys aml-blatfform sy'n apelio  at gynulleidfaoedd amrywiol, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a digidol.

### Cysylltiadau Allanol a Phartneriaethau

- Adeiladu cysylltiadau cryf gyda sianelau darlledu newydd ac ariannwyr annibynnol.
- Cynrychioli'r cwmni mewn digwyddiadau diwydiant, ffeiriau cynnwys a chyfarfodydd buddiolwyr.
- Cynllunio strategaethau i sicrhau comisiynau newydd a chynnal statws cryf y cwmni yn y farchnad ehangach.

### Rheolaeth a Mentora

- Cynnig cefnogaeth dydd i ddydd ar faterion golygyddol, gan gynnwys gwaith fel Uwch Gynhyrchydd.
- Hyrwyddo datblygiad personol a phroffesiynol tîm cynhyrchu, gan gynnwys datblygu talent newydd ar y sgrin ac oddi arni.
- Annog arweinyddiaeth hyderus ac agwedd agos-atoch tuag at gydweithwyr.

## YR YMGEISYDD DELFRYDOL

Bydd gan yr ymgeisydd:

- Profiad clir a llwyddiannus o greu cynnwys, gyda hanes o ennill comisiynau sylweddol sy'n dychwelyd yng Nghymru (a thu hwnt yn ddelfrydol).
- Dealltwriaeth ddyfn o ddiwydiant y cyfryngau yng Nghymru a thu hwnt, gan gynnwys llwyfannau digidol ac ar-lein.
- Y gallu i adnabod a manteisio ar gyfleoedd masnachol.
- Sgiliau cryf i ddatblygu a chyflwyno 'pitches' deniadol i bartneriaid newydd.
- Gallu i feithrin perthnasau gwaith newydd a chysylltiadau perthnasol ar draws y diwydiant.
- Agwedd hyderus ond ystyriol – rhywun sy'n 'berson pobl', agored ac yn bresenoldeb positif.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, gan gynnwys y gallu i siarad Cymraeg a/neu'n barod i ddysgu.
- Agwedd ysgogol, bositif ac uchelgeisiol tuag at ddatblygu gweledigaeth gyfoes y Cwmni.
- Parodrwydd i fod yn bresennol yn y swyddfa pan fo'n briodol, ond gyda dull gweithio hyblyg.

## HYBLYGRWYDD A PHRESENOLDEB CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL

Mae'n hanfodol bod yr ymgeisydd yn hyblyg o ran lleoliad ac argaeledd. Bydd angen teithio'n rheolaidd ledled y DU ac yn rhyngwladol er mwyn:

- Mynychu marchnadoedd a digwyddiadau diwydiant;
- Cyfarfod â darlledwyr, arianwyr a phartneriaid allweddol;
- Chwilio am gyfleoedd cydweithio a chynhyrchu ar draws llwyfannau amrywiol.

Dylai'r unigolyn allu gweithredu'n hyderus mewn amgylcheddau amlieithog a diwylliannol amrywiol, gan gynrychioli Cwmni Da gyda phroffesiynoldeb, creadigrwydd a brwdfrydedd.

Bydd agwedd agored, y gallu i deithio'n hyblyg, ac awydd i feithrin cysylltiadau newydd tu hwnt i Gymru yn elfen allweddol o'r rôl hon.

## Y CYD-DESTUN STRATEGOL

Gan bod y cwmni dan adain Ymddiriedolaeth ym Mherchnogaeth y Gweithlu (EOT) mae'r ethos o gydberchnogaeth, cyfraniad personol ac uchelgais cyfunol yn ganolog i'n ffordd o weithio. Rydym yn chwilio am rywun sy'n gallu adlewyrchu'r gwerthoedd hyn ac ymuno â ni i lunio dyfodol Cwmni Da.

## IAITH Y GWAITH: DISGWYLIADAU A CHEFNOGAETH

Mae'r Gymraeg yn greiddiol i hunaniaeth Cwmni Da. Rydym yn disgwyl parch tuag at yr iaith ym mhob rôl ac yn croesawu pawb sy'n barod i gyfrannu'n gadarnhaol at ein diwylliant ddwyieithog.

Rydym yn cynnig cefnogaeth ymarferol i bawb sydd eisiau datblygu eu hyder a'u defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith.


# Sut i Ymgeisio

Anfonwch eich CV a llythyr cais erbyn **29/08/2025**, gyda chyfweliadau i'w cynnal yn ystod mis Medi.

***Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â:***

**Leah Watkins** (Dolen HR) – leah@dolen.co.uk

**Bethan Griffiths** (Prif Weithredwr) – bethan.griffiths@cwmnida.cymru


CWMNI
cwmnida.cymru